# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant

cbac wjec

## Y Dull Gwybyddol – Piaget

| Damcaniaethwr dull | Prif agweddau'r dull neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant | Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau |
|---|---|---|
| Gwybyddol:<br><br>Piaget<br><br>**Geiriau allweddol:**<br><br>• Lluniadaethol<br>• Sgemâu<br>• Addasiad<br>• Cydweddiad | Mae Piaget yn lluniadaethwr sy'n credu bod deallusrwydd plant yn datblygu wrth iddynt dyfu a bod angen i'r plentyn lunio model o'r byd y gall adeiladu arno. Mae plant yn llunio'r byd hwn drwy ryngweithio â'u hamgylchedd a symud drwy gamau sy'n ddibynnol ar eu hoedran.<br><br>**Y cyfnod synhwyraidd-weithredol:** targed y plentyn yw datblygu **sefydlogrwydd gwrthrych**.<br><br>**Y cyfnod cynweithredol:** targed y plentyn yw datblygu **meddwl symbolaidd**.<br><br>**Y cyfnod gweithredu diriaethol:** targed y plentyn yw datblygu **meddwl rhesymegol**.<br><br>**Y cyfnod gweithredu ffurfiol:** targed y plentyn yw datblygu **meddwl haniaethol**.<br><br>Credai Piaget fod y camau hyn yn y drefn hon yr un peth ar gyfer pob plentyn a bod y drefn yr un fath bob amser, ond na chymerir y camau ar yr un pryd bob amser. Roedd gan Piaget ddiddordeb yn y ffordd roedd plant yn dechrau meithrin dealltwriaeth o gysyniadau megis amser, rhifau a symiau. Credai nad oedd gwybodaeth yn syml yn deillio o brofiadau, ond bod gennym gonglfeini mewnol sef **sgemâu** sy'n ein helpu i drefnu gwybodaeth a gwneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas.<br><br>**Addasiad:** Credai Piaget fod datblygiad gwybyddol yn broses lle rydym yn addasu i'r byd drwy gydweddu, cymhwyso a chydbwyso. Drwy **gydweddiad**, gosodwn wybodaeth newydd mewn sgema sy'n bodoli eisoes. | Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, sydd yn hyrwyddo dysgu plant trwy chwarae a phrofiad, yn seiliedig ar ddamcaniaeth Piaget o ddysgu gweithredol trwy archwilio'r byd a darganfod. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar y myfyriwr er mwyn hyrwyddo dysgu drwy ddarganfod gweithredol, gyda phwyslais ar y broses ddysgu yn hytrach na diwedd y daith.<br><br>Cydnabu Piaget bwysigrwydd arsylwi ar blant er mwyn asesu eu datblygiad er mwyn cynllunio gweithgareddau sy'n briodol o ran oedran a chyfnod. Mae hyn yn rhan bwysig o gynllunio gwers/ sesiwn. Caiff plant gyfleoedd i ddysgu a datblygu, a defnyddio llawer o adnoddau a deunyddiau. Mae arsylwi yn helpu i ddeall lefel cyflawniad pob plentyn, ynghyd â'i ddiddordebau a'i ddulliau o ddysgu, ac yn darparu cyfleoedd dysgu addas.<br><br>Mae damcaniaeth Piaget yn dylanwadu ar nodweddion dysgu ac addysgu effeithiol sef:<br><br>- mae plant yn ymchwilio i bethau ac yn profi pethau<br>- drwy ddysgu gweithredol, mae plant yn canolbwyntio ac yn dal ati hyd yn oed os wynebir heriau<br>- mae plant yn creu ac yn meddwl yn feirniadol<br>- mae plant yn datblygu eu syniadau eu hunain. |